Tyfu Cnydau Amrywiol – Rhanddirymiad Fesul Achos

Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn ystyried unrhyw geisiadau gan ffermwyr sy'n methu â cyflawni eu rhwymedigaethau Tyfu Cnydau Amrywiol fesul achos. Dylai ffermwyr yr effeithir arnynt gyflwyno eu cais, a thystiolaeth, gan ddefnyddio eu cyfrif RPW Ar-lein cyn gynted â phosibl.

Dylai ffermwyr ystyried y materion canlynol:

1. Caiff Amgylchiadau Force Majeure/Eithriadol eu diffinio fel amgylchiadau anfarferol neu na ellir eu rhagweld y tu allan i reolaeth y ffermwr, ble na fyddai modd osgoi y canlyniadau, er gwaethaf pob gofal, heb aberth sylweddol.

2. Os yw'r tywydd gwlyb, a chyflwr y tir yn rhwystro ffermwyr rhag bodloni rhwymedigaethau Tyfu Cnydau Amrywiol, mae'n rhaid iddynt hysbysu RPW o fewn 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad y maent mewn sefyllfa i wneud hynny.

3. Mae angen i ffermwyr ddarparu tystiolaeth pam y bu i'r tywydd gwlyb eu hatal rhag bodloni rhwymedigaethau Tyfu Cnydau Amrywiol. Gallai hyn gynnwys:

- tystiolaeth o'u cynlluniau gwreiddiol ar gyfer cnydau 2020.
- ffotograffau yn dangos cyflwr y cae. Yn ddelfrydol dylai'r rhain fod â geo-tag (y dyddiad wedi ei stampio ac yn cynnwys cyfeirnodau y gellir eu gweld ar fap) i gadarnhau y dyddiad a'r safle y cafodd y ffotograff ei dynnu.
- cofnodion cnydau gan gynnwys dyddiadau hau, os yn berthnasol
- anfonebau am hadau gyda derbynebau
- llythyrau gan gyflenwyr sy'n methu â darparu'r hadau sydd eu hangen
- data glawio, sy'n gysylltiedig â'r fferm neu'r ardal leol, gan ddangos bod y glaw yn eithriadol yn ystod y cyfnod pan fyddent fel arfer yn hau neu blanu cnydau
- tystiolaeth o'r mathau o bridd yn y cae(au) yr effeithiwyd arnynt.